



Drwy e-bost

22 Chwefror 2021

I bob canolfan sy'n cynnig, neu'n bwriadu cynnig cymwysterau Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (CBE) yng Nghymru o fis Medi 2021.

Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaethom ysgrifennu atoch yn amlinellu'r trefniadau trosiannol yr oeddem wedi'u rhoi ar waith ar gyfer dysgwyr a chanolfannau wrth gyflwyno'r cymwysterau Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu yng Nghymru. Ers hynny, bu tarfu pellach ar addysgu a hyfforddi ledled Cymru oherwydd y cyfyngiadau symud newydd a'r newid i ddysgu ar-lein i'r rhan fwyaf o ddysgwyr. Mae Cymwysterau Cymru wedi ystyried yr effaith ar ddarparwyr ac, ar ôl ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid, mae wedi diwygio'r trefniadau a fydd ar waith ar gyfer mis Medi eleni a mis Medi 2022 ynghylch argaeledd cymwysterau CBE cyfredol a newydd.

Wrth ystyried y trefniadau, rydym yn cydnabod yr heriau parhaus a wynebir gan y sector addysg a'r sectorau adeiladu a pheirianeg gwasanaethau adeiladu a achosir gan COVID-19. Rydym wedi trafod yr opsiynau sydd ar gael gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys darparwyr dysgu, cyrff sector, cyrff dyfarnu, a Llywodraeth Cymru. Roeddem hefyd am i'r trefniadau a amlinellir yn y llythyr hwn fod mor hyblyg â phosibl, gan osgoi'r angen am ragor o newidiadau.

Bydd y trefniadau canlynol ar waith ar gyfer mis Medi 2021:

- Byddwn yn caniatáu dynodi cymwysterau cyfredol am flwyddyn arall (tan 31 Mai 2022);
- Bydd y TGAU Amgylchedd Adeiledig newydd ar gael o fis Medi 2021;
- Bydd y Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) a Cynnydd mewn Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) ar gael o fis Medi 2021;

- Bydd y cymwysterau Adeiladu Lefel 3 a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu Lefel 3 ar gyfer prentisiaethau yn cael eu gohirio am flwyddyn a byddant bellach ar gael i ganolfannau eu haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2022;
- Bydd Safon Uwch Amgylchedd Adeiledig ar gael o fis Medi 2022 fel y bwriadwyd yn wreiddiol.

Er y byddwn yn caniatáu ymestyn dynodiad y cymwysterau presennol, byddem yn eich annog i ddechrau dysgwyr ar y cymwysterau newydd cyn gynted â phosibl gan y bydd hyn yn eu helpu i symud ymlaen i astudio a hyfforddi yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i weithio tuag at gael trefniadau pontio addas ar gyfer dysgwyr ym mis Medi 2022. Rydym wedi ystyried yr holl broffiliau dysgwyr posibl ar gyfer mis Medi 2021 a mis Medi 2022 ac yn darparu ffeithlun yn Atodiad A yn amlinellu'r teithiau dilyniant y credwn fydd ar gael i ddysgwyr dros y tair blynedd nesaf.

Byddwn yn cynnal sesiynau Holi ac Ateb rhithwir am 4pm ar [8 Mawrth](#) a [15 Mawrth](#) i ateb unrhyw gwestiynau neu ymholiadau sydd gennych am y trefniadau hyn. I gael rhagor o wybodaeth am y cymwysterau newydd, ewch i wefan Sgiliau i Gymru.

Yn gywir



Philip Blaker

Prif Weithredwr